



RHONDDA CYNON TAF

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Cyfarfod rhithwir o'r CABINET
Dydd Iau, 21ain Mai, 2020 am 3.30 pm

Dolen gyswllt: Hannah Williams – Uned Busnes y Cyngor
(Rhif ffôn. 01443 424062)

Os bydd Cynghorwyr yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn 5pm, dydd Mawrth, 19 Mai 2020.

Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. Dylai unrhyw Aelod sy'n dymuno siarad gwneud hynny yn unol â'r trefniadau sydd wedi'u pennu gan y Cadeirydd ar gyfer rhoi cyfle i'r rheiny nad ydynt yn Aelodau i gymryd rhan mewn cyfarfodydd rhithwir. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk

MATERION I'W TRAFOD

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr eitem mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. COFNODION

Derbyn cofnodion cyfarfodydd y Cabinet a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2020 a 20 Chwefror 2020 yn rhai cywir.

(Tudalennau 5 - 16)

3. YMATEB Y CYNGOR I ARGYFWNG COVID-19

Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr, sy'n rhannu manylion am ymateb y Cyngor i argyfwng COVID-19 â'r Cabinet.

(Tudalennau 17 - 28)

4. CYNLLUN DIRPRWYO'R ARWEINYDD

Derbyn [Cynllun Dirprwyo'r Arweinydd](#) yn dilyn y diwygiad diweddar sef:

- Penodi Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg

5. MATERION BRYG

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu

Cylchrediad:-

Y Cynghorwyr: Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd G Hopkins

Swyddogion: Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Paul Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

Tudalen wag

PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CABINET

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Iau, 13 Chwefror 2020 am 10.30 am ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Webber Y Cyngorydd R Bevan
Y Cyngorydd A Crimmings Y Cyngorydd M Norris
Y Cyngorydd J Rosser Y Cyngorydd R Lewis
Y Cyngorydd C Leyshon

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr P Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

103 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

104 Cofnodion

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2020 yn rhai cywir.

105 Newid i Drefn yr Agenda

Cytunodd y Cabinet y byddai'r agenda yn cael ei thrafod mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

106 Trafod swyddi Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant yr adroddiad i'r Cabinet, a oedd yn gofyn am drafod cyllid ar gyfer cyflogi Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd mewn chwe ysgol uwchradd/ysgol bob oed er mwyn mynd i'r afael â phresenoldeb mewn ysgolion.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod i'r Aelodau y bu dirywiad ym mhresenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn RhCT yn ystod y flwyddyn academaidd 2018/19, a bu RhCT yn yr 22^{ain} safle yn nhabl presenoldeb Cymru Gyfan. Yn hynny o beth, er mwyn sicrhau bod y disgyblion sydd fwyaf agored i niwed yn cael cymorth, cafodd model arfer gorau ei nodi o fewn yr ysgolion cynradd. Y gred oedd bod hwn o fudd wrth gynnal presenoldeb yn ogystal â ffurfio a gwella perthynas â rhieni yn y lleoliadau a oedd yn cyflawni waethaf.

Tynnodd y Cyfarwyddwr sylw'r Aelodau at Adran 5 yr adroddiad, lle'r oedd y cynnig o ran cyflogi Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd wedi'i amlinellu. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried peilota gosod Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd yn yr ysgolion canlynol sy'n tangyflawni:

- Ysgol Gymuned y Porth (Coch)
- Ysgol Gymunedol Aberdâr (Coch)
- Ysgol Gyfun Aberpennar (Oren)
- Ysgol Gymuned Glynrhedynog (Oren)
- Ysgol Gymuned Tonyrefail (Melyn)
- Ysgol Nantgwyn (Melyn)

Lleisiodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant ei chefnogaeth i'r cynnig a soniodd am Ysgol Gynradd Gymunedol Glen-boi, lle'r oedd rôl y Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd wedi gweithio'n dda iawn i ennyn diddordeb teuluoedd a gwella presenoldeb.

Gwnaeth yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd sylwadau cadarnhaol am y cynnig a chytunon nhw fod angen rhannu arfer da gan fod cefnogi teuluoedd yn hanfodol.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. Nodi'r wybodaeth oedd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad;
2. Ariannu a chyflogi Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd mewn chwe ysgol uwchradd / ysgol bob oed i helpu i wella presenoldeb.

107 Canlyniadau Arholiadau Cyfnod Allweddol 4 a Chyfnod Allweddol 5 a Chategoriâu Ysgolion Cynradd ac Uwchradd ar gyfer 2019/20

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant gadarnhad terfynol i'r Cabinet o ran canlyniadau arholiadau Cyfnod Allweddol 4 a Chyfnod Allweddol 5 yn 2018/19, a chategoriâu Ysgolion Cynradd ac Uwchradd yn ôl system gategoreiddio Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019/20. Cyn ei chyflwyniad, rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod am gamgymeriad yn ei hadroddiad, gan gadarnhau fod y data yn derfynol, a ddim yn ddata dros dro.

Aeth y Cyfarwyddwr yn ei blaen i roi trosolwg o'r canlyniadau, gan ddod i'r casgliad bod y deilliannau o ran categorïau'r ysgolion ar y cyfan yn awgrymu gwelliant yn nifer yr ysgolion cynradd sydd angen cymorth 'gwyrd' a 'choch', a bod y gategoreiddio o ran ysgolion uwchradd yn parhau'n gyson. Serch hynny, cafodd yr Aelodau wybod ei bod yn anodd gwneud cymariaethau ystyriol rhwng 2018 a 2019 oherwydd bod deilliannau 2019 yn cynnwys data 'dyfarniad cyntaf' yn unig.

Nododd yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru ddim yn darparu data ynglŷn â

chyflawniadau dysgwyr yn y meysydd canlynol bellach, er mwyn symud oddi wrth fesuriadau trothwy: pynciau unigol, gan gynnwys Bagloriaeth Cymru ar lefel Sylfaen neu Genedlaethol, mesuriadau cyflawniad trothwy, sef Dangosydd Pynciau Craidd neu Drothwy Lefel 2.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant i'r Cyfarwyddwr am yr adroddiad cadarn. Roedd yr Aelod o'r Cabinet yn falch o nodi bod y Cyngor yn parhau i fod yn uchelgeisiol ac yn rhoi mesurau yn eu lle i wella cyflawniad lle y bo'n bosibl, er bod amddifadedd yn effeithio ar gyflawniad addysgol.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. Nodi'r wybodaeth oedd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad;
2. Nodi'r camau a gymerwyd hyd yma a'r ymyrraeth a gynlluniwyd yn y dyfodol gan y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant mewn partneriaeth â Gwasanaethau Addysg yr Awdurdod Lleol a Chonsortium Canolbarth y De i gefnogi ysgolion sydd wedi'u categoraiddio ar hyn o bryd yn ambr a choch.

108 Cynllun Dirprwyo'r Arweinydd

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu y newyddion diweddaraf i'r Aelodau am y newid i Gynllun Dirprwyo'r Arweinydd, a **PHENDERFYNWYD**:

1. Nodi cynnwys Cynllun Dirprwyo'r Arweinydd; a
2. Nodi bod hawl gan Arweinydd y Cyngor i newid y Cynllun Dirprwyo mewn perthynas â swyddogaethau gweithredol unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn; a bod diweddariad o adran 3A yn cael ei gyflwyno i Aelodau yng nghyfarfod nesaf y Cabinet.

(**Nodwch**: Ar y pwynt yma, gadawodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser y cyfarfod.)

109 Argymhellion Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu argymhellion Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd i'r Cabinet, yn dilyn ei gyfarfod ar 28 Ionawr 2020. Yno, trafodwyd adroddiad ynglŷn â'r Polisi Rheoli Glaswellt Blodeuog Drafft ar gyfer Rhondda Cynon Taf ac adroddiad ynglŷn â'r camau y mae modd eu cymryd yn yr Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer, er mwyn sicrhau bod ansawdd aer yn gwella ledled y Fwrdeistref Sirol.

O ran yr adroddiad ar y Polisi Rheoli Glaswellt Blodeuog, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod bod y Grŵp Llywio o blaid y cynigion i gynyddu nifer y safleoedd lle mae blodau gwyllt yn cael eu rheoli a sefydlu gwefan Bioamrywiaeth.

O ran yr adroddiad ynglŷn ag Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod bod y Grŵp Llywio wedi trafod 'Diwrnod Aer Glân' ar 20 Mehefin 2020. Teimlai'r Grŵp Llywio y byddai cyfranogiad y Cyngor yn y fenter yn hyrwyddo neges gadarnhaol i'w drigolion ond cytunwyd y byddai angen cyfleu'r neges gywir, boed hynny o ran rhannu ceir, beicio i'r gwaith neu blannu coed. Yn ogystal â hynny, roedd y Grŵp Llywio'n argymhell bod angen

nodi camau gweithredu hyfyw, hirdymor i'w cynnwys yn Rhaglen Gyfalaf y Priffyrdd y Cyngor i'r Cabinet eu hystyried, yn ogystal â bwrw ymlaen â chamau gweithredu ymarferol, byrdymor.

Adleisiodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau, Diwylliant a'r Gymraeg deimladau'r Grŵp Llywio mewn perthynas â'r adroddiad ar Bolisi Rheoli Glaswellt Blodeuog. Nododd yr Aelod o'r Cabinet bwysigrwydd annog bioamrywiaeth ond ailadroddodd yr angen i gyfleu i'r cyhoedd nad yw'n ymarfer torri costau.

Aeth yr Aelod o'r Cabinet ymlaen i siarad am yr adroddiad Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer, gan nodi, yn gyffredinol, bod ansawdd aer ar draws RhCT wedi'i reoli'n dda, gyda dim ond un ar bymtheg o ardaloedd bach wedi'u nodi.

Manteisiodd y Dirprwy Arweinydd ar y cyfle i ganmol y Grŵp Llywio ar faterion yr Hinsawdd am y gwaith helaeth sydd wedi'i wneud mewn cyfnod mor fyr.

Wrth siarad am y Polisi Rheoli Glaswellt Blodeuog, roedd yr Aelodau'n cydnabod pwysigrwydd arwyddion a chyfathrebu i sicrhau bod trigolion yn deall yr angen am fioamrywiaeth ar draws y Fwrdeistref.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi cynnwys y ddau adroddiad a drafodwyd gan Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd ar 28 Ionawr 2020 ac
2. Argymhellion Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd:
 - I. Cymeradwyo Polisi Rheoli Rheoli Glaswellt Blodeuog Rhondda Cynon Taf
 - II. Parhau i symud ymlaen gyda'r camau gweithredu ymarferol, byrdymor sydd wedi'u nodi yn Nhabl B yr adroddiad Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer;
 - III. O ystyried amgylchiadau lleol cyfredol, bod y Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned yn gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen i nodi'r gweithredoedd hyfyw, hirdymor o Dabl B yr adroddiad Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer, i'w cynnwys yn Rhaglen Gyfalaf Priffyrdd y Cyngor, i'w ystyried gan y Cabinet;
 - IV. Bod y Cyngor yn ceisio ymgysylltu â thrigolion ynglŷn â'r Diwrnod Aer Glân, sy'n cael ei gynnal ar 20 Mehefin 2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac sy'n rhan o'r ymgyrch Diwrnod Aer Glân ehangach ledled y DU.

110 Gwneud Gwahaniaeth: Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2020-2024 (Drafft)

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ddrafft newydd o Gynllun Corfforaethol 2020 - 2024, gan egluro bod y Cynllun drafft yn gosod gweledigaeth ar gyfer y Fwrdeistref Sirol ac yn nodi'r blaenoriaethau a'r amcanion y bydd y Cyngor yn canolbwyntio arnynt dros y pedair blynedd ddilynol.

Siaradodd y Prif Weithredwr am yr ymgynghoriad, a gynhaliwyd dros gyfnod o 12 wythnos, a chyfeiriodd yr Aelodau at atodiad yr adroddiad, lle amlinellwyd yr adborth. Nododd yr Aelodau fod yr adborth yn arbennig o gadarnhaol gyda mandad clir yn cefnogi Gweledigaeth y Cyngor a'r tair blaenoriaeth.

Siaradodd yr Arweinydd am ba mor hanfodol yw'r Cynllun Corfforaethol i RCT, gan nodi ei fod yn paentio darlun ledled y sir, gyda'r holl adroddiadau cyllideb yn

cyd-fynd ag ef. Roedd yr Arweinydd yn falch o ddweud bod holl flaenoriaethau Cynllun Corfforaethol blaenorol y Cyngor wedi'u cyflawni a gofynnodd am ddiolch i'r holl staff am eu cyfranogiad amhrisiadwy.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. Trafod a herio'r Cynllun Corfforaethol drafft;
2. Nodi'r adborth o'r broses ymgynghori;
3. Cyflwyno'r Cynllun Corfforaethol drafft i'r Cyngor yn ei gyfarfod ar 4 Mawrth 2020.

111 Cydweithio ar yr Uned Trafnidiaeth Integredig

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Rheng-flaen yr adroddiad, a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Uned Trafnidiaeth Integredig Cynghorau Bwrdeistref Sirol Caerffili a Rhondda Cynon Taf, sef prosiect cydweithredol i greu canolfan ragoriaeth ar gyfer darparu gwasanaethau trafndiaeth ar draws y ddau awdurdod lleol.

Cyfeiriwyd yr aelodau at Adran 5 yr adroddiad, lle'r oedd y cynnig i'w ystyried wedi'i amlinellu, sef dod ag adnoddau ynghyd trwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth, a fyddai'n cael ei oruchwyllo gan fwrdd/grŵp llywio ar y cyd.

Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth na fydd darlun clir ar gael ynglŷn â chyflawniad y fenter cydweithredol o'i chymharu a'r cynllun busnes a chyflawni gwreiddiol nes y bydd 12 mis llawn o ddata ar gael.

Canmolodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Gwasanaethau Treftadaeth y cynnig a nododd y byddai trigolion yn parhau i dderbyn y gwasanaethau gorau, er gwaetha'r gostyngiad o ran cyllid gan y Llywodraeth. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet ei bod yn edrych ymlaen at yr adolygiad ymhen 12 mis.

Roedd y Dirprwy Arweinydd yn falch o'r cynnig a nododd fod yr adroddiad yn tystio i barodrwydd y Cyngor i ymgysylltu â'i Awdurdodau Lleol cyfagos i wella'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu i drigolion.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. Y bydd swyddogion y Cyngor yn gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i archwilio sefydlu canolfan ragoriaeth ar gyfer cyflenwi gwasanaeth trafndiaeth ar draws Caerffili a Rhondda Cynon Taf;
2. Y bydd adroddiad pellach yn dod gerbron y Cabinet ynglŷn â deilliannau'r adolygiad hwnnw yn y dyfodol iddyn nhw ei ystyried yn ffurfiol.

112 Cefnogi Busnesau Tref a Manwerthu yn Rhondda Cynon Taf – Cynllun Lleihau Ardrethi Busnes Lleol

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol i'r Cabinet ganlyniadau'r broses ymgynghori ar Gynllun Lleihau Ardrethi Busnes Lleol ar gyfer Rhondda Cynon Taf, yn ogystal â diweddariad am barhad Cynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr ac Ardrethi Manwerthu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020/21.

Esboniodd y Cyfarwyddwr fod y cynnig yn cyflwyno rhyddhad dewisol lleol i'w ddarparu yn ychwanegol at Ryddhad Ardrethi'r Stryd Fawr Llywodraeth Cymru

hyd at uchafswm o £300 i bob busnes cymwys. Tynnodd y Cyfarwyddwr sylw'r Aelodau at Atodiad 3 yr adroddiad, lle'r oedd canlyniadau'r ymgynghoriad wyth wythnos wedi'u hamlinellu.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol yn gadarnhaol am yr adroddiad a chroesawodd Cynllun Ryddhad Ardrethi Manwerthu Llywodraeth Cymru, ynghyd â chynnig y Cyngor i gyflwyno rhyddhad dewisol lleol ychwanegol. Roedd yr Aelod o'r Cabinet yn siomedig mai dim ond 26 o bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar-lein o'r 485 o fusnesau a fyddai'n elwa o'r gefnogaeth.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. Nodi canlyniad yr ymarfer ymgynghori fel sydd wedi'i nodi ym mharagraff 7 yr adroddiad;
2. Nodi parhad Cynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr ac Ardrethi Manwerthu Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn 2020/21;
3. Parhau â'r Cynllun Lleihau Ardrethi Busnes Lleol arfaethedig ar gyfer 2020/21.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.15 am

**Cllr A Morgan
Cadeirydd.**



PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CABINET

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Iau, 20 Chwefror 2020 am 10.30 am ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Webber Y Cyngorydd R Bevan
Y Cyngorydd A Crimmings Y Cyngorydd M Norris
Y Cyngorydd J Rosser Y Cyngorydd R Lewis

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr D Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

113 Absenoldebau

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol C. Leyshon.

114 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

115 Ymrwymiad y Cyngor i Ddarparu Gwasanaethau Cyngori Addysg ar y Cyd yn y Dyfodol

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant gyflwyniad i'r Cabinet ynglŷn â phenderfyniad Cydbwyllgor Consortiwm Canolbarth y De i ystyried gwasanaethau cyngori addysg mewn partneriaeth â'r pedwar cyngor arall yn y rhanbarth am y dair blynedd nesaf o leiaf.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at yr adolygiad annibynnol o'r Consortiwm, a gomisiynwyd gan Bartneriaeth ISOS, gan dynnu sylw'r Aelodau at atodiadau'r adroddiad, lle mae'r adolygiad a'r cynllun gweithredu, sydd bellach wedi'i gytuno gan y Cydbwyllgor, wedi'i amlinellu. Roedd yr Aelodau'n falch o nodi bod yr adroddiad yn dangos bod cyflawniad addysgol Rhanbarth Canolbarth y De wedi rhagori ar gyflawniad y tri Rhanbarth arall.

Yn ogystal â hynny, clywodd y Cabinet fod yr adroddiad wedi'i gyflwyno i Bwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc y Cyngor ar 12 Chwefror 2020, ac fod yr Aelodau wedi croesawu'r adolygiad gan ISOS ond hefyd wedi pwysleisio fod angen gwella'r cyfleoedd i swyddogaethau craffu'r awdurdod lleol herio cyflawniad y Consortiwm.

Dywedodd y Cyfarwyddwr wrth yr Aelodau nad oes modd i'r Cyngor dynnu allan o'r gytundeb tan 31 Mawrth 2022.

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant sylwadau cadarnhaol am ganlyniad yr adolygiad, gan gyfeirio at ba mor bwysig yw nodi meysydd i'w gwella. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet y byddai'r adroddiad yn cynnig sefydlogrwydd ar adeg lle mae'r sector addysg yng Nghymru yn wynebu newidiadau sylweddol.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad; a
2. Cefnogi penderfyniad Cydbwyllgor Consortiwm Canolbarth y De i barhau i ddarparu gwasanaethau cynghori addysg ar y cyd, mewn partneriaeth â'r pedwar cyngor arall yn y rhanbarth, am o leiaf tair blynedd.

116 Polisi Ffioedd a Thaliadau'r Cyngor 2020-2021

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol adroddiad i'r Aelodau sy'n amlinellu'r diwygiadau arfaethedig i lefelau ffioedd a thaliadau'r Cyngor ar gyfer 2020/21, yn ogystal â rhoi gwybodaeth am y ffioedd a'r taliadau sydd eisoes wedi'u cymeradwyo y mae modd eu cynnwys yn y Strategaeth Gyllideb arfaethedig ar gyfer 2020/21.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod adolygiad y Cabinet o'r ffioedd a'r taliadau yn rhan o drafeniadau cynllunio ariannol Tymor Canolig y Cyngor, a bod cynnig i roi cynnydd safonol o 1.5% ar waith o 1 Ebrill 2020.

Tynnodd y Cyfarwyddwr sylw'r Aelodau at Adran 5 yr adroddiad, lle roedd crynodeb o'r ffioedd a thaliadau arfaethedig sydd ddim yn ymwneud â'r cynnydd safonol:

- Hamdden am Oes - Dim cynnydd
- Taliadau Meysydd Parcio - Dim cynnydd;
- Ffioedd chwarae yr haf a'r gaeaf (Clybiau Chwaraeon) - Dim cynnydd;
- Prydau Ysgol (Cynradd ac Uwchradd) - Cynnydd o 5c fesul pryd (wedyn dim cynnydd am y ddwy flynedd nesaf, h.y. 2021/22 a 2022/23);
- Pryd-ar-glud a Phrydau mewn Canolfannau Oriau Dydd - Cynnydd o 10c fesul pryd;
- Lido Pontypridd (ffi defnyddwyr sy'n oedolion) - Cynnydd o 50c fesul cyfnod nodio i oedolyn;
- Parc Treftadaeth Cwm Rhondda - Cynnydd o £1 fesul tocyn mynediad i

oedolion a thocyn teulu ar gyfer Taith Pyllau Glo Cymru (y daith danddaearol), ac i safoni'r ffi 'dim mynediad' i oedolion a phlant ar gyfer Ogorf Siôn Corn hyd at £10

Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Threftadaeth at gynnydd y pris i oedolion sy'n defnyddio'r Lido, gan nodi fod trigolion wedi ymateb yn gadarnhaol i hyn yn yr ymgynghoriad.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. Cymeradwyo'r lefelau diwygiedig arfaethedig ar gyfer holl ffioedd a thaliadau'r Cyngor fel sydd wedi'u hamlinellu yn adran 5 o'r adroddiad ac sydd wedi'u nodi yn Atodiad 1 o'r adroddiad;
2. Ymgorffori'r effaith gyllidebol net (£2 fil ar gyfer 2020/21) i gynigion y strategaeth gyllideb i'w hystyried gan y Cabinet a'r Cyngor fel y bo'n briodol.
3. Nodi'r ffioedd a'r taliadau sydd wedi'u cymeradwyo eisoes ac wedi'u cynnwys yn strategaeth gyllideb arfaethedig 2020/21.

117 Cyllideb Refeniw'r Cyngor ar gyfer 2020/21

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol ganlyniadau ail gam yr ymgynghoriad ar y Gyllideb i'r Cabinet er mwyn i'r Aelodau ystyried a diwygio'r strategaeth gyllideb ddrafft yr hoffent ei hargymell i'r Cyngor yn y cyfarfod ar 4 Mawrth 2020.

Dywedodd y Cyfarwyddwr, er bod yr hinsawdd ariannol yn parhau i fod yn her, hyd yma, mae'r Cyngor wedi cyflawni cyllidebau cytbwys o flwyddyn i flwyddyn, a hynny ochr yn ochr â rhaglen fuddsoddi gadarn, sy'n cefnogi blaenoriaethau allweddol.

Gan ystyried effaith Storm Dennis a'r dinistr a achoswyd yn RhCT o ganlyniad i'r llyfogydd, gofynnwyd i'r Aelodau awdurdodi'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol i ddiwygio adroddiad strategaeth y gyllideb er mwyn adlewyrchu effaith y dyraniad o £1 miliwn o Gronfeydd Cyffredinol y Cyngor mewn ymateb i Storm Dennis.

Manteisiodd y Dirprwy Arweinydd ar y cyfle i ddiolch i'r garfan ariannol drylwyr, yr oedd hi'n ei ystyried yn ased i RhCT, a'r staff a oedd wedi parhau i weithio'n galed. Nododd y Dirprwy Arweinydd fod y cynnydd arfaethedig yn Nhrefn y Cyngor o 2.85% ar gyfer 2020/21, yn sefydlog o ystyried y pwysau ariannol parhaus, a'i fod yn isel o'i gymharu â'r rhai sydd wedi'u cynnig mewn awdurdodau lleol cyfagos.

Manteisiodd y Dirprwy Arweinydd ar y cyfle i siarad am yr erchyllterau a achoswyd gan Storm Dennis yn y cymunedau lleol a chanmolodd y trigolion am y gefnogaeth y maent wedi'i rhoi i'w gilydd. Roedd y Dirprwy Arweinydd yn hapus i gefnogi'r argymhelliad ychwanegol, gan nodi y byddai'r taliad yn helpu trigolion a busnesau ar adeg mor anodd.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol hefyd yn hapus i gefnogi'r argymhelliad ychwanegol a nododd, er bod Swyddfa Archwilio Cymru yn argymhell bod y Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol yn parhau i fod yn uwch na'r isafswm o £10 miliwn, y dylai'r arian gael ei ddefnyddio mewn argyfwng - fel yw'r achos ar hyn o bryd.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. Argymell y Strategaeth Gyllideb i'r Cyngor ar 4 Mawrth 2020;
2. Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol i newid lefel y cyfraniad o'r Gronfa Cynllunio Ariannol Tymor Canolig a Thrawsnewid Gwasanaeth, o ganlyniad i unrhyw newid i lefelau adnoddau'r Cyngor a gyhoeddwyd yn y Setliad Llywodraeth Leol Terfynol; a

Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol i ddiwygio adroddiad strategaeth y gyllideb i adlewyrchu effaith y dyraniad o £1 miliwn o'r Cronfeydd Wrth Gefn C

118 Rhaglen Gyfalaf y Cyngor 2020/21-2022/23

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol y Rhaglen Gyfalaf tair blynedd arfaethedig ar gyfer 2020/21 i 2022/23 i'r Cabinet.

Dywedodd y Cyfarwyddwr bod y rhaglen tair blynedd arfaethedig yn cynrychioli buddsoddiad o £131.772 miliwn ar y cyfan ac mae'n cynnwys:

- Rhaglen graidd o £42.300 miliwn dros y tair blynedd nesaf;
- Benthycia darbodus ar gyfer swm o £20.249 miliwn i gefnogi Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, Datblygiad Llys Cadwyn a gwelliannau i'r priffyrdd;
- £16.819 miliwn o grantiau penodol;
- £29.223 miliwn o gronfeydd wrth gefn a chyfraniadau cyllid wedi'u clustnodi a oedd wedi'u dyrannu i gynlluniau a blaenoriaethau buddsoddi;
- Derbyniadau cyfalaf, yn ychwanegol at y dyraniad craidd tair blynedd, o £10.283 miliwn; a
- Cronfeydd wrth gefn ychwanegol wedi'u clustnodi gwerth £1.658 miliwn a benthycia darbodus ychwanegol gwerth £7.500 miliwn i ariannu blaenoriaethau buddsoddi, ynghyd â cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru gwerth £2.692 miliwn.

O ran y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi gwerth £1.658 miliwn, sy'n creu cyfanswm o £11.850 miliwn ynghyd â'r benthycia darbodus, soniodd y Cyfarwyddwr am y cyfleoedd buddsoddi amrywiol ar gyfer isadeiledd, a fyddai'n cefnogi blaenoriaethau newydd y Cynllun Corfforaethol.

Siaradodd yr aelodau'n gadarnhaol am yr adroddiad, gan wneud sylwadau ar fuddsoddiadau blaenorol RhCT a'r uchelgais ar gyfer buddsoddi pellach.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. Cynnig y rhaglen gyfalaf tair blynedd sy'n cael ei chynnwys yn Atodiad A o'r adroddiad i'r Cyngor ar 4 Mawrth 2020 sy'n cynnwys:
 - Adolygiad a rhyddhau arfaethedig o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi fel sy'n cael eu manylu ym mharagraff 5.3 o'r adroddiad sydd ynghlwm;
 - Blaenoriaethau buddsoddi arfaethedig fel ym mharagraff 6.2 yr adroddiad atodedig;
 - Rhaglen gyfalaf graidd y Cyngor ;
 - Cyfanswm rhaglen gyfalaf y Cyngor, gan gynnwys cyllid ychwanegol sydd ddim yn gyllid craidd.
2. Awdurdodi Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol i ddiwygio lefel adnoddau'r Cyngor sydd ei hangen i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf Graidd Tair Blynedd yn Atodiad 2, o ganlyniad i unrhyw newid yn lefelau

adnoddau cyfalaf y Cyngor a gaiff ei ddatgan yn y Setliad Llywodraeth Leol terfynol

119 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad

PENDERFYNWYD: "Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf."

120 Caffael yr hen Neuadd Bingo, Pontypridd

Rhoddodd Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor drosolwg o'i adroddiad i'r Aelodau a oedd yn cynnwys gwybodaeth eithriedig.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD:**

1. Caffael budd rhydd-ddaliadol adeilad yr hen Neuadd Bingo a Chlwb Nos Angharad's ar Stryd Fawr, Pontypridd, ar bris cytunedig ynghyd â TAW, ffioedd a Threth Trafodiadau Tir;
2. Nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cynnig £1.540 miliwn o gyllid Buddsoddi Adfywio wedi'i Dargedu (TRI) tuag at gyfanswm y costau. Mae telerau ac amodau manwl y cyllid hwn yn cael eu cadarnhau ar hyn o bryd gyda Llywodraeth Cymru;
3. Derbyn y cynnig o £1.540 miliwn o gyllid Buddsoddi Adfywio wedi'i Dargedu gan Llywodraeth Cymru tuag at gaffael, ffioedd cysylltiedig a chostau dymchwel adeilad yr hen Neuadd Bingo a Chlwb Nos Angharad's ar Stryd Fawr, Pontypridd.
4. Derbyn adroddiad ar y cyd pellach gan Gyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a'r Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu ar ddymchwel ac ailddatblygu'r safle.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.05 am

**Cllr A Morgan
Cadeirydd.**

Tudalen wag



RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL

CABINET

21st MAY 2020

UPDATE ON COVID 19 POSITION IN RHONDDA CYNON TAF

REPORT OF THE CHIEF EXECUTIVE IN DISCUSSION WITH THE LEADER OF THE COUNCIL (COUNCILLOR A MORGAN)

Author: Chris Bradshaw, Chief Executive

1. PURPOSE OF THE REPORT

- 1.1 The purpose of the report is to provide an update of the action taken by the Council as a result of the COVID 19 national emergency.

2 RECOMMENDATIONS

It is recommended that Members:

- 2.1 Note the action taken by the Council to date in response to the Covid 19 pandemic;
- 2.2 Request that a report estimating the potential financial impact of the Council's response to the pandemic is presented to the next Cabinet meeting;
- 2.3 Request that further reports that set out how the Council plans to reopen key services and public areas such as town centres and transport hubs are presented to future Cabinet meetings.

3 REASONS FOR RECOMMENDATIONS

- 3.1 To provide a comprehensive summary for Cabinet of the action taken by the Council since the Covid 19 restrictions were imposed by the UK and Welsh Governments; and set out future steps the Council will take to prepare for the future phased lifting of these restrictions.

4. BACKGROUND

- 4.1 In a televised address to the UK on 23rd March, the Prime Minister announced unprecedented lockdown measures to stop the spread of the Covid 19 virus between households, changing the way in which everyone in the UK lives their daily lives. This resulted in an initial three week lockdown of the movement of people, forcing people to remain at home, other than key workers, a significant increase in the UK Government's response from the changes introduced on:
- 16th March, which focused on avoiding all non-essential contact with others;
 - 20th March all bars, pubs, cafes and restaurants were closed, followed by the closure of schools and childcare facilities, except for the children of key workers.
- 4.2 The purpose of the lockdown has been very clear as set out in the four UK governments' messages of Stay at Home; Protect the NHS; Save Lives. The overwhelming focus has been to delay the virus and ensure the demand for NHS services does not exceed the supply, which could result in many hundred thousands of deaths.
